Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 09/02/21

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr W.L.Davies, C.Larsen, M.Sarnacki, W.Tudor Owen, S.Sage, I.C.Thomas (Is-Gadeirydd – yn Cadeirio), R.Thomas, C.Williams

1. Croeso

Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Cynghorydd W.L.Davies wedi dychwelyd gartref wedi cyfnod yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Fe'i croesawyd i'r cyfarfod, a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

2. Ymddiheuriadau

Dim.

3. Datgan Buddiant Personol

Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 5(viii).
Y Cynghorydd C.Wiliiams – eitem 5(viii).
Y Cynghorydd W.Tudor Owen – eitem 5(xiv).

Gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

5.Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd ar y taliadau canlynol:

Enw		Swm	Talu allan o
(i)	Radio Ysbyty Gwynedd	Na ddylid ystyried y cais gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. Yn hytrach, dylid trafod y cais yn y cyfarfod nesaf (unfrydol).	
(ii)	Ambiwlans Awyr Cymru	Na ddylid ystyried y cais gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. Yn hytrach, dylid trafod y cais yn y cyfarfod nesaf (unfrydol).	

(iii)	Eisteddfod yr Urdd	Na ddylid ystyried y cais gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. Yn hytrach, dylid trafod y cais yn y cyfarfod nesaf. Dylid gofyn iddynt pam oeddynt yn dymuno cael yr un cyfraniad, er fod yr Eisteddfod yn mynd i fod yn un rhithiol (unfrydol).	
(iv)	Dawns i Bawb	Na ddylid ystyried y cais gan nad oedd yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi dod i law. Yn hytrach, dylid trafod y cais yn y cyfarfod nesaf (unfrydol).	
(v)	Clwb Bocsio Caernarfon	£100 (unfrydol).	Pot “Arall”
(vi)	Cyngor ar Bopeth Gwynedd	£2,500 (unfrydol). Fodd bynnag dylid datgan siomedigaeth nad oedd yr holl waith papur wedi ei dderbyn yn ddwyieithog.	Cyfrifon
(vii)	Seindorf Arian Llanrug	£600 (unfrydol).	Cyfrifon
(viii)	Tîm o Walis – Pêl Rwyd	£100 (unfrydol).	Pot “Arall”
(ix)	Tŷ Gobaith	£100 (unfrydol).	Pot “Arall”
(x)	Clwb Bowlio Caernarfon	£200 (unfrydol).	Cyfrifon
(xi)	Cerebal Palsy Cymru	£100 (unfrydol).	Pot “Arall”
(xii)	Theatr Bara Caws	£100 (unfrydol).	Cyfrifon
(xiii)	Clwb Criced Caernarfon	£200 (unfrydol).	Cyfrifon
(xiv)	Cymdeithas Canolfan Noddfa	£1,500 (unfrydol).	Cyfrifon
(xv)	Gŵyl Fwyd	Gohirio talu ar gyfer 2021/22 am y tro, a gwirio os yw’r Ŵyl Fwyd (a digwyddiadau eraill sy’n debygol o gael eu gohirio yn 2021/22), angen y cyfraniad. Dylid gofyn iddynt gwblhau ffurflen os oeddynt angen gwneud	

	cais am gyfraniad (unfrydol).	
(xvi) Gŵyl Arall	Nodwyd mai'r penderfyniad gwreiddiol oedd cyfrannu £1,000 ar gyfer 2020/21. Erbyn hyn mae'r sefyllfa wedi newid gyda'r argyfwng Covid-19, gyda nifer o ddigwyddiadau, a oedd i'w cynnal yn 2020/21 yn cael eu canslo. Penderfynwyd na fyddai'n briodol i wneud taliadau grant i sefydliadau oedd wedi gofyn am arian ar gyfer digwyddiadau nad oedd bellach yn gallu cymryd lle oherwydd yr argyfwng cenedlaethol. Yn sgîl hyn, penderfynodd y Cyngor i dalu'r arian a glustnodwyd i'r sefydliadau perthnasol ar gyfer 2020/21 yn 2021/22. Felly byddai Gŵyl Arall yn derbyn y £1,000 yn 2021/22 yn hytrach nag yn 2020/21. Fodd bynnag, ar gyfer 2020/21 gofynnwyd i'r Clerc adael i sefydliadau wybod y gellid gwneud cais am unrhyw gostau annisgwyl y byddent yn gorfod eu wynebu yn 2020/21. Roedd Gŵyl Arall wedi gwneud cais am daliad yn 2020/21 yn ogystal gan eu bod yn cynnal digwyddiadau rhithiol. **Penderfynwyd gofyn am fanylion y gwariant yn 2020/21, a gwneud penderfyniad ar y mater**	

	yn y Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth (unfrydol).	

6. Penawdau Cyllidol

(a) Bu i'r Pwyllgor Cyllid benderfynu, yn ei gyfarfod ar y 16eg o Ragfyr, bod arian yn cael ei drosglwyddo i'r llinellau cyllidol canlynol ar gyfer 2020/21:

- £1,500 – Llinell Gyllidol 1114 – Offer Swyddfa / Moderneiddio – yn gwneud cyfanswm o £3,500
- £2,000 – Llinell Gyllidol 1217 – Eraill - yn gwneud cyfanswm o £6,000
- £7,000 – Llinell Gyllidol 1221 – Disaster A/C - yn gwneud cyfanswm o £8,000
- £2,000 - Llinell Gyllidol 1308 – Cysgodfannau Bysiau - yn gwneud cyfanswm o £4,000

(b) Nad oedd penderfyniad o ran o lle roedd yr arian yn trosglwyddo ohono.

(c) Gofynnwyd am benderfyniad o ran (b) uchod.

Penderfynwyd:

(1) Trosglwyddo'r arian o'r penawdau a nodir ar gyfer y llinellau cyllidol isod ar gyfer 2020/21 (unfrydol):

Trosglwyddiad i	**O lle?**
£1,500 – Llinell Gyllidol 1114 – Offer Swyddfa / Moderneiddio – yn gwneud cyfanswm o £3,500	● **£500 allan o Llinell Gyllidol 1101 – Hysbysebu** ● **£12,000 allan o Llinell Gyllidol 1310 – Clwb Ieuenctid**
£2,000 – Llinell Gyllidol 1217 – Eraill - yn gwneud cyfanswm o £6,000	
£7,000 – Llinell Gyllidol 1221 – Disaster A/C - yn gwneud cyfanswm o £8,000	
£2,000 - Llinell Gyllidol 1308 – Cysgodfannau Bysiau - yn gwneud cyfanswm o £4,000	
Cyfanswm = £12,500	**Cyfanswm = £12,500**

Yn ogystal, penderfynwyd ar y canlynol (unfrydol):

Trosglwyddiad i	**O lle?**
£5,000 - Llinell Gyllidol 1221 – Disaster A/C	**£5,000 allan o Llinell Gyllidol 1209 – Tân Gwyllt**
£6,600 – Grant CaerAilGyfle – llinell gyllidol newydd	● **£4,000 allan o Llinell Gyllidol 1319 – Gŵyl Fwyd** ● **£2,600 allan o Llinell Gyllidol 1220 – Sgrîn Fawr**

Gadawodd y Cynghorydd C.Williams y cyfarfod am 7.05 p.m.

7. Grant am Rewgell Gymunedol

Cyflwynwyd adroddiad ar yr uchod a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 5ed o Ionawr, gan fod goblygiadau cyllidol i'r Cyngor.

Nododd y Clerc erbyn hyn fod gwybodaeth wedi dod i law nad oedd y grant yn llwyddiannus ond bod yr Economi Gylchol wedi cynnig cymorth tuag at y Grant CaerAilGyfle. Roedd yn disgwyl am fwy o fanylion.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

8. Mynwent Llanbeblig

Cafwyd trafodaeth ar gyfraniad i fynwent Llanbeblig.

Nodwyd bod gwaith mawr wedi cael ei wneud i glirio Mynwent Llanbeblig gan y Cynghorydd K.Jones a'r criw. Roedd £1,000 yn y gyllideb ar gyfer y Fynwent, ond roedd ansicrwydd o ran sut roedd hwn wedi cael ei wario yn y gorffennol.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Bod y pwyllgor yn agored i gyfrannu tuag at y gwaith o glirio Mynwent Llanbeblig.

(2) Bod angen i'r Cynghorydd K.Jones a'r Clerc drafod beth yn union yw'r costau (blwyddyn ariannol yma a'r flwyddyn ariannol nesaf) , a sut y gellir gwneud unrhyw gyfraniad, er mwyn symud y mater yn ei flaen.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.30 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____